Gwaith i ddechrau ar gampws dysgu Penfro



Dyfarnwyd y contract ar gyfer cyfnod cyntaf adeiladu Campws Dysgu Penfro newydd i gontractwr Bouygues UK yn dilyn cymeradwyo Achos Busnes Llawn y prosiect gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r datblygiad yn rhan o fuddsoddiad arfaethedig o £42.9 miliwn at ei gilydd ar gyfer Campws Dysgu Penfro a dyma brosiect ysgol mwyaf Cyngor Sir Penfro hyd yn hyn.

Y cyfnod cyntaf fydd ysgol uwchradd 11-18 newydd 1,463 lle a chanolfan awtistiaeth ar gyfer 30 o ddysgwyr.

Bydd gwaith adeiladu ar yr ysgol newydd yn dechrau'r mis yma, gyda dyddiad agor o fis Medi, 2018.

Yna bydd gwaith yn cael ei wneud i ddymchwel yr hen ysgol a ffurfio'r ardaloedd allanol newydd, gyda holl waith i'w orffen erbyn mis Mai 2019.

Mae'r cynllun yn rhan o raglen sylweddol o fuddsoddiad sy'n cael ei gynllunio gan y Cyngor fel rhan o'i Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif £149 miliwn, gyda'r Cyngor wedi mynd drwy broses achos busnes trwyadl er mwyn cael cymeradwyaeth ar gyfer y 50% o gyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru.

Meddai'r Cynghorydd Sue Perkins, Aelod Cabinet y Sir dros Addysg a Diogelu: "Mae'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf sylweddol, hirdymor a strategol, gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru, ac ymrwymiad cyllid sylweddol gan y Cyngor.

"Mae prosiect Campws Dysgu Penfro'n gyfle unigryw i ddarparu ysgol newydd, i greu amgylchedd dysgu a luniwyd i wella cyflwyno addysg yn yr 21ain ganrif."

Meddai Frank Ciccotti, Pennaeth ysgol Penfro, "Mae'r llywodraethwyr a'r staff wrth eu boddau bod y contract wedi cael ei ddyfarnu a bod y gwaith ar gyflawni Cyfnod 1 o Gampws Dysgu Penfro ar waith o'r diwedd ar ôl pedair blynedd o gynllunio manwl.

"Yn fy nhrafodaethau gyda Bouygues UK, mae'n amlwg eu bod yn brofiadol dros ben o ran adeiladu ysgolion a bod ganddynt werthfawrogiad da o gymhlethdodau gweithio ar safle ysgol fyw. Rwy'n hyderus y byddwn yn datblygu perthynas waith agos i gyflawni'r prosiect pwysig hwn."

Ychwanegodd Chris Stevens, Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol Bouygues UK: "Rydym yn llawn cynnwrf o fod yn gweithio ar Gampws Dysgu Penfro newydd - bydd yn gyfleuster addysgol newydd rhyfeddol i blant ysgol lleol ac yn adeiladu ar ymrwymiad y Cyngor i wella ysgolion, gan ddarparu amgylcheddau dysgu cyfoes er lles plant am genedlaethau i ddod.

"Rydym hefyd yn falch o barhau ein cysylltiad â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n adfywio addysg ledled Cymru ac sydd wedi bod yn gyfle i ni gyflenwi amryw ysgolion gwobrwyol."

Hefyd yn ymwneud â'r prosiect mae Gleeds, ymgynghoriaeth eiddo ac adeiladu lleol, a benodwyd drwy Fframwaith Ymgynghoriaeth De-orllewin Cymru. Gleeds sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rheoli costau a phrosiectau.

Meddai Simon Williams, Cyfarwyddwr Gleeds: "Rydym yn hynod falch o fod yn rhan o dîm cyflawni Campws Dysgu Penfro newydd. Bydd Gleeds yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Penfro a'r tîm prosiect ehangach i greu gofod dysgu ysbrydoledig ac amlddefnydd, i roi lle i ehangder ac amrywiaeth gwasanaethau addysgol yr ysgol."

Yn ogystal â'r buddiannau economaidd a ddaw'r prosiect hwn i'r rhanbarth, bydd y prosiect hefyd yn dod â manteision cymunedol i'r cylch yn ystod adeiladu'r prosiect yn unol â chynllun Buddiannau Cymunedol yr Awdurdod a Bouygues UK ar gyfer cyflawni'r Campws Dysgu.

Cyfnod 2 Campws Dysgu Penfro yw Canolfan Alwedigaethol newydd a fydd, os caiff ei chymeradwyo, yn fenter ar y cyd rhwng Cyngor Sir Penfro a Choleg Sir Benfro i ddarparu amgylchedd dysgu unigryw.

Geiriad
Argraff arlunydd o Gampws Dysgu Penfro.